**Quality Welsh Food Certification Ltd**
Gorseland, Ffordd Y Gogledd, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2WB
Ffôn : (01970) 636688 Ffacs: (01970) 624049 E-bost: fawl@wfsagri.net

## Gwneud Cais am Aelodaeth o FAWL

***Pwy sy'n gymwys i ymuno?***

Mae unrhyw gynhyrchydd cig eidion a chig oen yng Nghymru yn gymwys i ymuno. Fodd bynnag, er mwyn bod yn aelod rhaid i'r fferm, yn dilyn asesiad, ddangos ei bod yn cydymffurfio â set o safonau sy'n ymwneud â lles anifeiliaid, hylendid a rheolaethau amgylcheddol.

***Sut allaf gael Gwarant Fferm?***

Mae'r broses yn golygu gwneud cais i'r Cynllun a dod yn aelod o Gynhyrchwyr Cig Oen a Chig Eidion Cymru Cyf (WLBP). Yna rhaid i chi gael eich ymweliad asesu cyntaf a chywiro unrhyw ddiffygion cydymffurfio, os oes rhai. Unwaith y mae cydymffurfiad â'r Cynllun wedi'i wirio cewch eich cydnabod yn aelod o FAWL.

***Sut ydw i'n gwneud cais?***

Mae'n hanfodol eich bod yn darllen Llawlyfr y Cynhyrchwr, yn enwedig Safon y Cynllun, er mwyn gwneud yn siŵr eich bod yn barod i wneud eich cais ac yn gwbl barod ar gyfer yr asesiad.

Byddwch cystal â llenwi'r Ffurflen Gais ac, os oes angen, ddarparu gwybodaeth ychwanegol ar ddarn o bapur ar wahân.

Mae'r tanysgrifiad blynyddol yn daladwy trwy ddebyd uniongyrchol. Mae'r manylion isod. Byddwch cystal â llenwi'r Cyfarwyddyd Debyd Uniongyrchol a'i ddychwelyd gyda'ch cais.

Byddwn yn cysylltu â chi o fewn 14 diwrnod i'r dyddiad y byddwn yn derbyn eich cais er mwyn gwneud trefniadau i ymweld â'ch fferm. Os na allwch gytuno ar ddyddiad addas ar gyfer asesiad o fewn cyfnod rhesymol, yna byddwn yn ysgrifennu atoch i ofyn i chi gysylltu â ni pan fyddwch yn barod ar gyfer ymweliad.

***Pryd fydda' i'n talu?***

Mae'r tanysgrifiad blynyddol yn daladwy trwy ddebyd uniongyrchol, ac mae'r manylion yn y daflen "Ffioedd y Cynllun". Bydd eich tanysgrifiad yn cael ei dynnu o'ch cyfrif ar neu ar ôl yr 28ain o'r mis y byddwch yn ymuno ac yn flynyddol wedi hynny. Anfonir anfoneb TAW atoch ar gyfer eich cofnodion.

***Ydw i'n barod i wneud cais ?***

Bydd rhaid i chi fod yn siŵr eich bod yn barod ar gyfer yr asesiad cyn i chi wneud cais.

Dylech ddarllen Safon y Cynllun yn Llawlyfr y Cynhyrchwr yn ofalus fel bod modd i chi roi sylw i unrhyw ddiffygion cydymffurfio posibl cyn eich asesiad.

Gall y bydd rhai diffygion cydymffurfio ag angen asesiad pellach er mwyn cadarnhau camau cywirol a gall y byddwch yn gorfod talu am hyn. Er mwyn osgoi hyn, dylech roi sylw i unrhyw faterion nad ydynt yn cydymffurfio â'r Safon *cyn* yr asesiad.

***Pryd ydw i'm derbyn fy nhystysgrif?***

Unwaith y byddwn yn fodlon fod eich fferm yn cydymffurfio â Safon y Cynllun byddwn yn anfon Tystysgrif Cydymffurfiad atoch. Mae'r dystysgrif hon yn rhoi'r hawl i chi werthu eich anifeiliaid dan warant Cynllun Cig Eidion a Chig Oen FAWL.

Mae Tystysgrifau Cydymffurfiad QWFC yn amodol ar delerau Rheoliadau'r Cynllun fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd. Mae'r manylion ar ein gwefan www.fawl.co.uk ac ar gael hefyd ar gais ar 01970 636688.

***Beth sy'n digwydd os oes gen i sawl uned?***

Os oes gan y busnes sawl uned ond yn dal o dan yr un reolaeth, mae un asesiad fel arfer yn ddigon, ond gall y bydd angen asesiad hirach a fydd yn costio rhagor. Byddwn yn cysylltu â chi er mwyn cael eich caniatâd cyn mynd ymlaen.

***Ail asesu?***

Cewch eich ail asesu pob 18 mis o leiaf i gadarnhau eich bod yn dal i gydymffurfio a'r rheolau ac fe fydd nifer o aelodau yn cael eu dewis am archwiliad ar hap. Petae yr un mater yn cael ei godi fel diffyg cydymffurfio ar sawl achlysur, gall QWFC ofyn i aelod o'r cynllun gyflwyno mwy o dystiolaeth am y ffordd y mae yn mynd i gydymffurfio yn rheolaidd i'r dyfodol. Efallai y bydd cynnal asesiad ar hap ar gost yr aelod. Gall eith aelodaeth o'r cynllun ei ddiddymu ar unrhyw adeg os y darfau fyddir eith bod yn torri rheol y cynllun mewn ffordd ddifrifol.

## Gwybodaeth Bellach

I gael copi o holl Reoliadau'r Cynllun a manylion pellach ynglŷn â gweithredu cynllun gwarantu Cig Eidion a Chig Oen FAWL a sut i gael Tystysgrif QWFC, byddwch cystal ag ymweld â'n gwefan www.fawl.co.uk neu fe allech gysylltu â ni'n uniongyrchol ar 01970 636688.